------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 3 Tachwedd 2016

Amser: 08.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Jon Antoniazzi**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (08.45 - 09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol - (Prif Grŵp Gwariant (MEG) Llywodraeth Leol)

(9.15 - 10.45) (Tudalennau 1 - 31)

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol
Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyllid Llywodraeth Leol

## 3 Papur i'w nodi

**Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd ac Estyn ynghylch gwaith craffu ôl-ddeddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 - addysg ar berthnasau iach.**

(Tudalennau 32 - 38)

**Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch gwaith craffu ôl-ddeddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 - addysg ar berthnasau iach**

(Tudalennau 39 - 43)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

**5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18 - Ystyried dull yr ymchwiliad**

(10.45-11.15)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau am gynigion y gyllideb ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Llywodraeth Leol, fel yr amlinellwyd y rheini yng Nghyllideb Ddrafft 2017-18 a osodwyd ar 18 Hydref. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hefyd am feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Mae Atodiad A yn rhoi manylion ffigurau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y MEG Llywodraeth Leol, a hynny yn ôl Camau Gweithredu a Llinellau Gwariant (BEL).

## 2. Cefndir

Mae yng Nghyllideb Ddrafft 2017-18 gynllun blwyddyn ar gyfer buddsoddi arian refeniw, a chynllun pedair blynedd ar gyfer buddsoddi arian cyfalaf, sy'n rhoi sicrwydd ar gyfer buddsoddi yn y tymor hwy. Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg o'r MEG Llywodraeth Leol.

**Tabl 1: Trosolwg o'r MEG Llywodraeth Leol ar gyfer 2017-18**

| Crynodeb Llywodraeth Leol | Gwaelodlin Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Cynllunia u newydd Cyllideb Ddrafft 2017-18 | Cynllun iau newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 | Cynllun iau newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 | Cynlluni au newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 3,333,635 | 3,262,256 | | | |
| DEL Cyfalaf | 20,281 | 143,118 | 143,118 | 143,118 | 143,118 |
| **Cyfanswm DEL** | **3,353,916** | **3,405,374** | **143,118** | **143,118** | **143,118** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **977,000** | **1,059,000** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm – Llywodraeth Leol** | **4,330,916** | **4,464,374** | **143,118** | **143,118** | **143,118** |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer refeniw yn y MEG Llywodraeth Leol yn cynnwys DEL Adnoddau ac AME Adnoddau. Gyda'i gilydd, £4.321bn yw gwerth y rhain yn 2017-18, sy'n gynnydd o £10.6m o'i gymharu â 2016-17.

Mae cynnydd o £122.8m yn y gyllideb arian cyfalaf. Mae hyn yn dilyn trosglwyddo sawl elfen o Gyllid Cyfalaf Cyffredinol sydd wedi'i dangos mewn MEGs eraill yn y gorffennol. Maent wedi'u cydgrynhoi yn y MEG Llywodraeth Leol er mwyn bod yn fwy tryloyw.

Elfen fwyaf y MEG Llywodraeth Leol yw'r cyllid craidd i'r 22 cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol, a hwnnw'n arian heb ei neilltuo. Ystyrir yr arian hwn yn nhermau Cyllid

Allanol Cyfun (AEF) sy'n cynnwys y grant cynnal refeniw (RSG) ac ardrethi annomestig (NDR) wedi'u hailddosbarthu. Mae'r grant cynnal refeniw wedi'i gynnwys o fewn y DEL Adnoddau, ac ardrethi annomestig yw'r AME Adnoddau.

O fewn cyfanswm y DEL Adnoddau, mae gwaelodlin Grant Cynnal Refeniw 2016-17 wedi'i addasu i gynnwys y £2.5m a roddwyd am un tro'n unig yn 2016-17 i gyfyngu ar y gostyngiadau yn y Grant i rai awdurdodau.

Mae ffigurau 2017-18 yn cynnwys trosglwyddo nifer o grantiau i'r setliad a throsglwyddo ohono gyllid i newid y trefniadau ar gyfer y cymhorthdal cofrestru athrawon.

Gan ystyried y Grant Cynnal Refeniw a threthi annomestig ynghyd, bydd cyfanswm y cyllid sydd ar gael i awdurdodau drwy'r Setliad Llywodraeth Leol yn golygu cynnydd ariannol o £3.8m (Tabl 2). Bydd trefniadau tebyg yn berthnasol i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu drwy Setliad yr Heddlu.

**Tabl 2: Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer Awdurdodau Unedol a'r Heddlu**

***£000s***

| | 2016-17 (wedi'i addasu) | 2017-18 Arfaethedig | Y gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Unedol | | | |
| RSG | 3,175,482 | 3,101,370 | |
| NDR | 928,150 | 1,006,050 | |
| **Cyfanswm** | **4,103,632** | **4,107,420** | **3,788** |
| | | | |
| Yr Heddlu | | | |
| RSG | 87,950 | 85,750 | |
| NDR | 48,850 | 52,950 | |
| **Cyfanswm** | **136,800** | **138,700** | **1,900** |

## 3. Trosolwg o'r Gyllideb

Cyllideb yw hon sydd wedi cael ei datblygu mewn cyfnod ansicr ac anodd. Bydd canlyniad refferendwm yr UE yn ailddiffinio'n perthynas gyda'r Undeb Ewropeaidd yn yr hirdymor; mae ansicrwydd hefyd ynghylch dyfodol ffynonellau cyllid Ewropeaidd pwysig a'r effaith ar gyllid cyhoeddus yn y DU a Chymru.

Rydym yn dal i wynebu toriadau parhaus i'n cyllid cyffredinol gan Lywodraeth y DU – mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dweud y bydd Cymru'n wynebu un mlynedd ar ddeg o gwtogi ar wariant mewn gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'r corff dylanwadol hwn yn disgrifio hynny fel rhywbeth rhyfeddol.

Mae hyn yn golygu ein bod, yn Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn wynebu dewisiadau anodd wrth inni barhau i weithio i amddiffyn ein gwasanaethau cyhoeddus rhag y gwaethaf o'r effeithiau hyn, ac wrth fuddsoddi yng Nghymru er mwyn creu swyddi a chryfhau ein heconomi, gan symud Cymru yn ei blaen.

Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Datganiad yr Hydref ym mis Tachwedd. Er bod datganiadau cynnar Canghellor y Trysorlys yn awgrymu na fydd y Trysorlys yn ceisio sicrhau gwarged erbyn 2010, mae wedi dweud hefyd nad yw'n ddiwedd ar y polisi o gyni. Dyna pam, yn ein Cyllideb Ddrafft, ein bod wedi penderfynu cyhoeddi cynlluniau gwariant refeniw ar gyfer 2017-18 yn unig a chynlluniau gwariant cyfalaf am bedair blynedd, sy'n rhoi mwy o sicrwydd ar gyfer buddsoddi yn y tymor hwy.

Rydym bellach yn ail flynedd setliad Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, setliad a bennodd gyllideb refeniw Llywodraeth Cymru rhwng 2016-17 a 2019-20 a'r gyllideb gyfalaf tan 2020-21. Yn gyffredinol, bydd cyllideb Cymru yn parhau i ostwng mewn termau real dros y cyfnod hwn.

Bydd y toriadau sydd eto i ddod yn dyfnhau effaith y gostyngiadau a wnaed mewn termau real bob blwyddyn ers 2010-11. Dangosodd y gostyngiadau i'n setliad ar ôl yr Adolygiad o Wariant bod Llywodraeth y DU am barhau i docio gwariant cyhoeddus a'i bod wedi ymrwymo i'w pholisi o gyni.  Bydd ein cyllideb 9% yn is mewn termau real erbyn diwedd y degawd – mae hyn yn gyfystyr â bron i £1.5bn yn llai mewn termau real ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn 2019-20 o'i gymharu â 2010-11.

Mae'r gweinyddiaethau datganoledig wedi erfyn ar Lywodraeth y DU i ailystyried ei pholisi economaidd ac ariannol.  Gan weithio ynghyd, rydym yn benderfynol o wrthwynebu rhagor o bolisïau cyni a all fod yn yr arfaeth yn dilyn canlyniad y refferendwm.

Mae canlyniad refferendwm yr UE wedi ychwanegu at yr ansicrwydd ynghylch adnoddau Cymru yn y dyfodol. Bydd gadael yr UE yn cael effaith ar yr adnoddau hynny sydd ar gael yng Nghymru, gan ein bod yn elwa o £650m y flwyddyn o wahanol ffynonellau ariannu Ewropeaidd.

Mae angen cynlluniau refeniw arnom nawr er mwyn ariannu ein gwasanaethau cyhoeddus heddiw, yn ogystal ag ariannu ein blaenoriaethau dros y tymor hwy a'n galluogi i baratoi at y gostyngiadau anochel yn y gyllideb dros y blynyddoedd nesaf os na fydd y polisi o gyni'n dod i ben.

Unwaith y byddwn wedi asesu effaith Datganiad yr Hydref, bwriadwn gyhoeddi rhagdybiaethau ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn y flwyddyn newydd. Mae ein penderfyniad i gyhoeddi cyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn i ddod yn golygu ein bod yn rhoi sefydlogrwydd i wasanaethau craidd ac yn buddsoddi yn y blaenoriaethau sydd angen sylw'n syth. Mae hyn yn rhoi llwyfan sefydlog inni er mwyn dygymod yn y cyfnod ariannol

anodd sydd o'n blaenau, a hynny drwy weithio mewn ffordd arloesol gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

Dull integredig, hirdymor o ddefnyddio cyllid cyfalaf

Yn y gyllideb hon, mae gennym gyfle i fuddsoddi yn yr economi, i wella gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, ac i ddechrau cyflawni'r prif flaenoriaethau a nodwyd gennym yn Symud Cymru Ymlaen.

Yn y gorffennol, cyllid cyfalaf a chyllid drwy drafodiadau ariannol traddodiadol fu gennym yn bennaf i ariannu prosiectau seilwaith cyhoeddus. Bellach, gall Cymru ddefnyddio pwerau benthyca newydd a dulliau cyllido mwy arloesol, wrth i lefel y cyfalaf cyhoeddus sydd ar gael barhau i ostwng.
Byddwn yn gosod cyllideb dros bedair blynedd, gan adlewyrchu'r setliad cyfalaf a gafwyd yn Adolygiad o Wariant 2015 y DU. Mae hyn yn cynnwys cyllideb bendant ar gyfer 2017-18 a dyraniadau dangosol ar gyfer y tair blynedd ddilynol. Mae'n bwysig ein bod mor dryloyw ac yn rhoi cymaint o sicrwydd ag y gallwn i'n prif randdeiliaid a'n partneriaid cyflawni er mwyn buddsoddi arian cyfalaf, a'n casgliad oedd mai dull sy'n seiliedig ar yr hirdymor yw'r ffordd orau o fynd ati.

Cyfanswm y cyllid cyfalaf sydd ar gael

Mae'r gyllideb yn dangos ein cynlluniau i roi £6.9bn o gyllid cyfalaf, ac yn ychwanegol at hwnnw ein cynlluniau i fuddsoddi £1.5bn drwy ein rhaglenni buddsoddi ariannol arloesol. Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y pwerau benthyca cyfalaf sydd gennym yn Neddf Cymru 2014. Bydd y ffynhonnell hon o gyllid, sy'n rhan o'r dyraniad cyfalaf cyffredinol, yn rhoi hwb o £395m i'n cyllidebau DEL Cyfalaf dros bedair blynedd.

Ac ystyried y ffactorau niferus sy'n effeithio ar amseru a chostau prosiectau seilwaith strategol, byddwn yn ystyried yn ofalus sut i ddefnyddio cyllid wedi'i fenthyca yn ystod cyfnod pob cyllideb, ac yn defnyddio'r arian hwnnw wedyn ar gyfer y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt i fuddsoddi'n strategol. Yr ymrwymiadau yn Symud Cymru Ymlaen a'r blaenoriaethau buddsoddi yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a fydd yn llywio ein cynlluniau a'n penderfyniadau ar gyfer buddsoddi'n strategol.

Cronfa ganolog wrth gefn Llywodraeth Cymru

Ein polisi yw dyrannu cymaint â phosibl i bortffolios ond gan gadw lefel ddarbodus yn y gronfa ganolog wrth gefn petai angen ymateb i bwysau annisgwyl. Tra bo'r egwyddor hon yn berthnasol i'n cyllidebau refeniw a chyfalaf fel ei gilydd, rydym yn cynyddu'r gronfa gyfalaf wrth gefn ymhellach, gan sicrhau bod digon o gyllid canolog ar gael i roi'n blaenoriaethau ar waith wrth i'r rheini ddatblygu dros dymor y Cynulliad.

O’r herwydd, mae ein cronfa adnoddau wrth gefn ar gyfer 2017-18 yn 1.7 y cant o’r DEL Adnoddau a’r gronfa gyfalaf wrth gefn yn 7.1 y cant o’r DEL Cyfalaf, gan godi i rhwng 30 a 34 y cant yn y tair blynedd ddilynol. Rydym yn fodlon y bydd y lefelau hyn o gronfeydd wrth gefn yn ein galluogi i reoli risgiau ac ymateb i bwysau annisgwyl, tra ar yr un pryd yn rhoi sicrwydd ariannol i Ysgrifenyddion y Cabinet i ddechrau cynllunio a chyflawni’r prif ymrwymiadau yn Symud Cymru Ymlaen.

**4. Y Rhaglen Lywodraethu**

Cyllideb i symud Cymru ymlaen yw hon, i roi sefydlogrwydd yn ein gwasanaethau craidd, ac i wneud cynnydd wrth roi ar waith ein Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen 2016-21:
http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf .

Mae Symud Cymru Ymlaen yn dangos sut y bydd y llywodraeth hon yn creu mwy o swyddi o ansawdd gwell drwy economi gryfach a thecach; yn gwella ac yn diwygio gwasanaethau cyhoeddus; ac yn creu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy drwy ddatblygu a rhoi ar waith bedair strategaeth drawsbynciol:

- Ffyniannus a diogelIach ac egnïolUchelgais a dysgu
- Unedig a chysylltiedig

Bydd y strategaethau hyn yn sail i *Symud Cymru Ymlaen* ac yn ein galluogi i ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael i ni i gael yr effaith fwyaf ac i gyflawni addewid Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y strategaethau cydgysylltiedig hyn yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus wedi’u hintegreiddio, yn effeithlon, ac yn gallu cefnogi a chyfoethogi bywydau pobl pan fydd angen y gwasanaethau hynny arnynt.

Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd sy’n annog cyflawni arloesol yn yr hinsawdd sydd ohoni. Bydd cydweithio, gwaith partneriaeth a sicrhau effeithlonrwydd drwy’n holl wasanaethau cyhoeddus yn hanfodol bwysig, a rhaid inni herio'n hunain a'n partneriaid i ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym ar y cyd i sicrhau bod ein hymdrechion yn arwain at y budd mwyaf posibl. Mae Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol yn rhoi i ni ac i gyrff cyhoeddus eraill sylfaen gref i adeiladu arni.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i greu’r amgylchiadau cywir i fusnesau ffynnu ac i roi cyfleoedd cynaliadwy ar gyfer annog twf a chreu swyddi. Byddwn yn torri £100m ar y dreth i fusnesau bach yn 2017-18 drwy ein Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes, a fyddai fel arall wedi dod i ben. O 2018, byddwn yn sefydlu cynllun newydd, diwygiedig, parhaol.

Mae’r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes yn rhoi rhyddhad o 100% i fusnesau a chanddynt werth ardrethol o hyd at £6,000, a rhyddhad graddol o 100% i ddim i’r rheini a chanddynt werth ardrethol o rhwng £6,001 a £12,000. Yn ogystal â’r Cynllun hwn, byddwn yn neilltuo £10m yn ein cronfa wrth gefn er mwyn ariannu cynllun rhyddhad newydd i fusnesau bach yn y cyfnod pontio.

**5. Cwestiynau’r Pwyllgor**

**Llywodraeth Leol**

Mae gwariant ar lywodraeth leol yn hanfodol er mwyn darparu addysg, gofal cymdeithasol, gwasanaethau tai ac amryw o wasanaethau eraill sydd wedi'u cynllunio i roi'r cyfle gorau i bobl gael bywydau iach a ffyniannus.

Arian a roddir drwy'r grant cynnal refeniw, ynghyd ag incwm o ardrethi annomestig sy'n cael ei ailddosbarthu, yw craidd y cyllid y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i lywodraeth leol.

Yn 2017-18, mae'r ddwy elfen hon yn cynyddu'r arian sydd ar gael yn y setliad am y tro cyntaf ers 2013-14, a bydd hyn yn sicrhau bod modd i awdurdodau lleol gynnal y gwasanaethau lleol pwysig y maent yn eu darparu.

Mae hwn yn setliad gwell na'r un yr oedd llywodraeth leol yn ei ddisgwyl, ac mae'n dilyn setliadau'r flwyddyn gynt pan gafodd y dyraniadau eu gwarchod gennym hefyd. At hynny, rydym wedi cyflwyno trefniant lle bydd cyllid gwaelodol ar gael, er mwyn sicrhau nad yw unrhyw awdurdod unigol yn wynebu gostyngiad amhosibl yng nghyfanswm ei setliad o'i gymharu â'r flwyddyn gynt.

Mae Setliad Llywodraeth Leol 2017-18 yn cynnwys £25 miliwn yn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn adlewyrchu cytundeb Llywodraeth Cymru â Phlaid Cymru i roi £25 miliwn yn ychwanegol i lywodraeth leol drwy'r setliad, yn ogystal â £1 miliwn ar gyfer cludiant i ysgolion a £3 miliwn ar gyfer cynllun peilot i helpu gyda pharcio ceir yng nghanol trefi.

**Y trafodaethau â llywodraeth leol**

Bu trafodaethau cyson â llywodraeth leol am y ffactorau sy'n effeithio ar setliad 2017-18. Bu nifer o gyfarfodydd ffurfiol o dan y trefniadau partneriaeth, gan gynnwys tri chyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid a chyfarfodydd o is-grŵp hwnnw, yr Is-grŵp Dosbarthu, sy'n ystyried materion sy'n ymwneud â'r fformiwla ddosbarthu. Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a'i ragflaenydd, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, sydd wedi cadeirio cyfarfodydd yr Is-grŵp Cyllid.

**Y fformiwla gyllido**

Mae fformiwla'r setliad, sy'n cael ei datblygu a'i chytuno ar y cyd â llywodraeth leol, yn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael i lywodraeth leol yn seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys teneurwydd poblogaeth ac amddifadedd cymharol ar draws awdurdodau lleol Cymru. Mae'r fformiwla yn dosbarthu'r arian sydd ar gael ar sail angen cymharol gan ddefnyddio pob math o wybodaeth am nodweddion demograffig, economaidd-gymdeithasol, ffisegol ac amgylcheddol pob awdurdod yng Nghymru.

Caiff y fformiwla gyllido ei hadolygu'n barhaol er mwyn sicrhau ei bod wedi'i diweddaru ac yn berthnasol. Mae Adroddiad yr Is-grŵp Dosbarthu yn 2016 yn dangos newidiadau arfaethedig i'r fformiwla a'r ffynonellau data ar gyfer 2017-18. Yn ei gyfarfod ar 4 Hydref, cytunodd yr Is-grŵp Cyllid i roi ar waith yr holl newidiadau a gynigiwyd yn yr Adroddiad, er mai yn raddol a dros ddwy flynedd y byddai'r newid i'r fformiwla gwasanaethau cymdeithasol personol yn digwydd. Bydd cofnodion y cyfarfod ac Adroddiad yr Is-grŵp Dosbarthu yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cytunwyd hefyd y byddai'r Is-grŵp Cyllid yn ystyried yn fanylach raglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu yn 2017 er mwyn sicrhau bod modd deall yn iawn y cynlluniau i ddatblygu'r fformiwla a goblygiadau posibl y newidiadau.

**Gwario ataliol**

Nid yw'r setliad llywodraeth leol yn arian wedi'i neilltuo. Dewis pob awdurdod lleol yw sut y bydd yn gwario'r adnoddau hyn, ynghyd â'r arian o dreth gyngor a godir yn lleol ac incwm o ffioedd a thaliadau, er mwyn cyflawni amcanion a blaenoriaethau pwysig. Mae'r setliad craidd yn rhoi'r elfen unigol fwyaf o'r cyllid a gaiff llywodraeth leol i ariannu'r gwasanaethau amrywiol y mae'n gyfrifol amdanynt.

Mae'r ymrwymiad i roi'r rhan fwyaf o'r cyllid drwy'r setliad sydd heb ei neilltuo a pharhau i drosglwyddo grantiau i'r setliad neu gyfuno grantiau yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau reoli adnoddau mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r agenda ataliol.

Mae pob awdurdod lleol yn gorff hunanlywodraethol sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd, ac mae'n atebol i'w etholaeth am y penderfyniadau y bydd yn eu gwneud. Mae gan awdurdodau gyfres o ddyletswyddau a swyddogaethau statudol, a phwerau i ddarparu amryw o swyddogaethau a gwasanaethau eraill. Rhaid i bob awdurdod sicrhau ei fod yn cymryd camau priodol i asesu effaith unrhyw bolisi y mae'n ei weithredu drwy'r arian a ddaw o'r setliad llywodraeth leol. Bydd ceisio barn mewn ffordd drylwyr ac ystyrlon am ei gyllideb yn helpu'r awdurdod i sicrhau ei fod yn ystyried effeithiau'r gyllideb honno'n llawn. Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw pennu eu blaenoriaethau gwario yn unol â hyn, gan ystyried y ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael iddynt. Mae gofyn i awdurdodau lleol baratoi strategaethau ariannol ar gyfer y tymor canolig er mwyn sicrhau eu bod yn gosod cyllidebau sy'n sefydlog ac yn gynaliadwy yn y tymor canolig. Mae'r pwysau ar gyllidebau yn golygu ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn ceisio barn pobl leol am benderfyniadau ac am sut y caiff adnoddau lleol eu blaenoriaethu a'u gwario. Yn benodol, mae angen i awdurdodau geisio barn trigolion am benderfyniadau anodd ynghylch toriadau posibl. Bydd pob awdurdod yn gwneud ei benderfyniadau ar sail anghenion a blaenoriaethau lleol, a rhaid iddo asesu effaith ei gynigion a'i benderfyniadau ar grwpiau sydd wedi'u gwarchod ac yng nghyd-destun ei swyddogaethau ehangach.

**Diwygio Llywodraeth Leol**

Mae'r gyllideb yn cynnwys £5 miliwn ar gyfer trawsnewid a deddfwriaeth. Mae hyn yn gynnydd o £2.7 miliwn o'i gymharu â 2016-17. Wrth fwrw ymlaen â'r agenda i ddiwygio llywodraeth leol, bydd angen rhoi arian sefydlu i gynorthwyo â hyn.

Bydd yr arian hwn, yn ogystal â'r ffaith bod y setliad llywodraeth leol yn well na'r hyn oedd yr awdurdodau lleol yn ei ddisgwyl, yn galluogi'r awdurdodau i fuddsoddi mewn camau i'w trawsnewid, fel datblygu gwasanaethau ar y cyd i roi'r diwygiadau ar waith.

**Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y trefniadau presennol ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau yn 2017-18 ac y bydd yr arian yn y setliad ar gyfer hyn yn parhau'n £244 miliwn. Bydd hyn yn sicrhau bod tua 300,000 o gartrefi yng Nghymru yn dal i gael cymorth i dalu eu treth gyngor. O blith y rhain, ni fydd tua 220,000 yn talu treth gyngor o gwbl.

**Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE)**

Yn unol â'n hymrwymiad i barhau i wella Asesiad Effaith Cyllideb Llywodraeth Cymru, mae BAGE dros y blynyddoedd wedi bod yn hanfodol wrth roi cyngor a rhannu arferion da ar faterion cydraddoldeb, yn ogystal ag wrth wella'r sail dystiolaeth fel bod modd canfod a deall y materion sylfaenol sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Mae'r gwaith hwn wedi dylanwadu a llywio ein gwaith ar y gyllideb yn y gorffennol, ac wedi rhoi platfform pwysig ar gyfer paratoadau'r gyllideb eleni.

Mae Cyllideb eleni wedi'i llywio gan yr ansicrwydd ariannol ac economaidd sy'n dal i fodoli. Ein blaenoriaeth yw rhoi cyfnod o sefydlogrwydd i'n gwasanaethau cyhoeddus craidd dros y 18 mis nesaf, er mwyn gallu paratoi gyda'n gilydd at y cyfnodau ariannol anos sydd o'n blaenau. Mae *Symud Cymru Ymlaen 2016-21* yn gychwyn newydd i gyflawni, gan gydnabod bod y modd y cyflawnwn yr un mor bwysig â'r hyn a gyflawnwn.

I wneud hyn, bydd angen inni i gyd weithio a meddwl yn wahanol, ac rydym yn ffodus yng Nghymru bod gennym ddeddfwriaeth (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol) er mwyn gyrru'r newid hwn yn ei flaen. Rydym yn dal i fod wedi ymrwymo i gynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac wrth inni ddatblygu ein hymateb i'r Ddeddf byddwn yn parhau i ystyried sut yr ydym yn ceisio barn pobl a phartneriaid, yn enwedig wrth greu Cymru fwy cyfartal.

Yn ganolog i hyn, bydd angen manteisio ar arbenigedd a thystiolaeth er mwyn ystyried effaith ein penderfyniadau gwario. Byddaf yn edrych ar y ffordd orau o geisio barn rhanddeiliaid ynghylch materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb wrth bennu cyllidebau yn y cyfodol.

Wrth bennu ein cynlluniau ar gyfer 2017-18, rydym yn edrych ar sut yr ydym yn ceisio barn rhanddeiliaid er mwyn datblygu'n polisïau yn y dyfodol. Er enghraifft, rydym yn cynnwys

rhieni yn y broses o ddatblygu gofal plant dros y ddwy flynedd nesaf, a hynny er mwyn canfod y model mwyaf effeithiol i ddarparu gofal plant o ansawdd da.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**
Mae'r Gyllideb ddrafft hon yn ymateb cytbwys a realistig yn y cyfnod ansicr hwn. Yn sgil yr amgylchiadau hyn, rydym wedi dyrannu ein hadnoddau er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau a buddsoddi yn ein ffyniant yn y dyfodol.

Unwaith eto, rydym wedi dilyn dull integredig yn ein hasesiad o'r effaith, gan ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau strategol gwybodus ar sail dadansoddiad o'r dystiolaeth am grwpiau sydd wedi'u gwarchod. Rydym wedi defnyddio tystiolaeth am y grwpiau hyn er mwyn targedu ein hadnoddau ac i geisio cael yr effaith gadarnhaol fwyaf, gan liniaru ar effaith cyni lle nad oes modd ei osgoi. Unwaith eto, mae hyn wedi ein galluogi i ystyried yn llawn yr effaith ar anfanteision economaidd-gymdeithasol, hawliau plant, y Gymraeg a datblygu cynaliadwy, yn ogystal â chanolbwyntio ar gydraddoldeb a threchu tlodi.

Fodd bynnag, tra bo'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn canolbwyntio ar effeithiau strategol penderfyniadau gwario ar lefel uchel, mae asesiadau effaith yn cael eu cynnal drwy gydol y broses o gynllunio'r gyllideb ar draws portffolios. Rhoddir asesiad o'r effeithiau hyn yn nhystiolaeth Gweinidogion i'r pwyllgorau pwnc.

<u>Dull Integredig</u>

Gan adeiladu ar y gwaith cychwynnol a wnaed i baratoi at oblygiadau'r Ddeddf yng Nghyllideb 2015-16, rydym yn parhau i ddatblygu sut yr ydym yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio wrth baratoi'r gyllideb ddrafft, gan ddefnyddio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol i lywio hynny.

Seiliwyd y cynlluniau yn y gyllideb ddrafft ar ddadansoddi'r ffactorau sy'n effeithio ar y galw am wasanaethau cyhoeddus yn yr hirdymor. Roedd y dadansoddiad hwn yn dangos yn glir bod angen dull sy'n seiliedig ar waith ataliol wrth ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Wrth bennu cyllideb ar gyfer y sector cyhoeddus drwyddo draw, bûm yn eglur y bydd angen gwell integreiddio ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus ac y bydd hynny'n ganolog i ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithiol, ac felly hefyd yr angen i gydweithio a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus yn y broses. Rydym hefyd wedi parhau i ddilyn dull integredig o ystyried yr effaith ar grwpiau sydd wedi'u gwarchod, ac wrth ganolbwyntio ar yr amcanion cenedlaethol yr ydym yn eu rhannu.

Mae dull integredig o asesu effaith yn hanfodol, yn enwedig gan fod perthynas rhwng llawer o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, tlodi a hawliau plant. Mae gwneud hyn yn ein helpu i ystyried yn well effeithiau posibl ein penderfyniadau ac i fod yn hyderus y gallwn eu rheoli gyda'i gilydd.

Rydym eisoes wedi dangos ein bod yn wynebu heriau sylweddol a gwirioneddol i gyflawni, a phan na fydd modd inni gynnal y cyllid sydd ar gael, mae angen inni sicrhau nad yw hynny'n cael effaith anghymesur ar grwpiau sydd wedi'u gwarchod.

Mae'r dull integredig yn rhoi asesiad mwy realistig o effaith gyfansawdd penderfyniadau gwario, ac yn cydnabod na fydd wastad un ateb a fydd yn lliniaru effaith penderfyniad ym mhob maes. Mae'r asesiad hwn o effaith ein penderfyniadau yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac yn atal gwahaniaethu, a dyma sydd wedi llywio proses y gyllideb.

Er enghraifft, rydym wedi dilyn dull traws-bortffolio integredig wrth ddyrannu ein cyllideb gyfalaf ac wedi ystyried yr effeithiau disgwyliedig wrth flaenoriaethu dyraniadau yn y gyllideb. Gan weithio ar draws y Llywodraeth, rydym yn adolygu'r heriau a'r cyfyngiadau sy'n wynebu'r llywodraeth gyfan, gan graffu'n fanwl ar gynigion, herio rhagdybiaethau, a chanfod cyfleoedd i weithio ar y cyd, er enghraifft wrth edrych ar y tir sydd ar gael i adeiladu tai a'r rhaglen cartrefi fforddiadwy.

Y sail dystiolaeth

Fel rhan o ddogfen naratif y gyllideb, rydym wedi cyhoeddi tystiolaeth o'r effaith ar grwpiau sydd wedi'u gwarchod, a defnyddiwyd y dystiolaeth hon wrth ystyried y Gyllideb. Fodd bynnag, wrth wneud penderfyniadau, mae pob math o dystiolaeth yn cael ei hystyried er mwyn bod yn sail i'n cynlluniau gwario.

Rydym wedi adolygu gwybodaeth am dueddiadau presennol ac yn y dyfodol, a thystiolaeth am grwpiau sydd wedi'u gwarchod, gan ystyried yr effaith bosibl ar y grwpiau hynny er mwyn rhoi sail i'n dewisiadau am y penderfyniadau a fydd yn rhoi'r gwerth gorau.
Er enghraifft, rydym yn defnyddio amryw o ffynonellau gwybodaeth gwahanol er mwyn rhoi sail i'n hystyriaethau ar y gyllideb, fel adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'A yw Cymru'n Decach?'

**6. Deddfwriaeth**

Mae'r gyllideb yn parhau i roi sylw i'n rhaglen ddeddfu bresennol. Mae tabl yn nodi'r costau ar gyfer 2017-18, sef costau deddfwriaeth sydd eisoes mewn grym a chostau disgwyliedig Biliau pan wneir Asesiad Effaith Rheoleiddiol neu cyn iddynt ddod i rym, wedi'i gyhoeddi law yn llaw â naratif y Gyllideb Ddrafft. Fel y nodwyd yn adran 6, mae £5m wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â thrawsnewid llywodraeth leol a rhoi deddfwriaeth ar waith i gyd-fynd â'r broses o ddiwygio ac adnewyddu awdurdodau lleol.

LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) — Annex 1

RESOURCE BUDGET - Departmental Expenditure Limit

| SPA | Actions | BEL Title | BEL Number | 2015-16 Outturn £000's | Forecast 2016-17 £000s | Change 2017-18 £000s | Draft Budget 2017-18 £000s |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Local Government Funding | Funding Support for Local Government | Local Govt General Revenue Funding | 840 | 3,176,354 | 3,127,105 | -22,937 | 3,104,168 |
| | | Police General Revenue Funding | 860 | 135,010 | 136,800 | -51,050 | 85,750 |
| | | Local Govt Revenue Consequences | 885 | 3,786 | 3,787 | -137 | 3,650 |
| | | Non Domestic Rates Collection Costs | 940 | 5,172 | 5,172 | 0 | 5,172 |
| | | Community Support Officers | 830 | 16,332 | 16,787 | 0 | 16,787 |
| | | Emergency Financial Assistance Scheme | 1600 | 2,000 | 1 | 0 | 1 |
| | | Transformation & Legislation | 887 | 1,573 | 2,255 | 2,745 | 5,000 |
| | Valuation Services | Valuation Office Agency | 1500 | 9,386 | 8,561 | 0 | 8,561 |
| | | Valuation Tribunal for Wales | 1540 | 1,248 | 1,074 | 0 | 1,074 |
| | | CTRS & Related Analysis | 1550 | 109 | 100 | 0 | 100 |
| | **Total Local Government Funding** | | | **3,350,970** | **3,301,642** | **-71,379** | **3,230,263** |
| Improving Services, Collaboration and Democracy | Building Local Democracy | Local Government Boundary Commission | 1440 | 438 | 572 | 0 | 572 |
| | | Local Government Scrutiny & Standards | 1462 | 508 | 126 | 0 | 126 |
| | Local Government Improvement | Outcome Agreement | 880 | 31,096 | 0 | 0 | 0 |
| | | Improvement & Audit | 1571 | 706 | 460 | 0 | 460 |
| | | Local Government Research | 1665 | 161 | 0 | 0 | 0 |
| | Academi Wales | Academi Wales | 7093 | 1,081 | 1,109 | 0 | 1,109 |
| | Supporting Collaboration and Reform | Local Government Regulation | 1574 | 104 | 144 | 0 | 144 |
| | | Partnerships and Transformation | 1575 | -1,241 | 730 | 0 | 730 |
| | **Total Improving Services, Collaboration and Democracy** | | | **32,853** | **3,141** | **0** | **3,141** |
| Care and Social Services Inspectorate | Care and Social Services Inspectorate | Care and Social Services Inspectorate | 6775 | 14,698 | 13,953 | 0 | 13,953 |
| | **Total Care and Social Services Inspectorate** | | | **14,698** | **13,953** | **0** | **13,953** |
| Healthcare Inspectorate Wales | Healthcare Inspectorate Wales | Healthcare Inspectorate for Wales | 6785 | 3,315 | 3,586 | 0 | 3,586 |
| | **Total Healthcare Inspectorate Wales** | | | **3,315** | **3,586** | **0** | **3,586** |
| Estyn | Estyn | Estyn | 6280 | 10,784 | 11,313 | 0 | 11,313 |
| | **Total Estyn** | | | **10,784** | **11,313** | **0** | **11,313** |
| | | | | | | | |
| | **Total Resource - Local Government** | | | **3,412,620** | **3,333,635** | **-71,379** | **3,262,256** |

RESOURCE BUDGET - Annually Managed Expenditure

| SPA | Actions | BEL Title | BEL Number | 2015-16 Outturn £000's | Forecast 2016-17 £000s | Change 2017-18 £000s | Draft Budget 2017-18 £000s |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Local Government Funding | Funding Support for Local Government | Non Domestic Rates - AME | 870 | 956,000 | 977,000 | 82,000 | 1,059,000 |
| | **Total Local Government Funding** | | | **956,000** | **977,000** | **82,000** | **1,059,000** |
| | | | | | | | |
| | **Total AME - Local Government** | | | **956,000** | **977,000** | **82,000** | **1,059,000** |

CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit

| SPA | Actions | BEL Title | BEL Number | 2015-16 Outturn £000's | Forecast 2016-17 £000s | Change 2017-18 £000s | Draft Budget 2017-18 £000s | Draft Budget 2018-19 £000s | Draft Budget 2019-20 £000s | Draft Budget 2020-21 £000s |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Local Government Funding | Local Government General Capital Funding | General Capital Funding | 1675 | 20,000 | 20,000 | 122,837 | 142,837 | 142,837 | 142,837 | 142,837 |
| | **Total Local Government Funding** | | | **20,000** | **20,000** | **122,837** | **142,837** | **142,837** | **142,837** | **142,837** |
| Estyn | Estyn | Estyn - Programme Expenditure | 6280 | 216 | 281 | 0 | 281 | 281 | 281 | 281 |
| | **Total Estyn** | | | **216** | **281** | **0** | **281** | **281** | **281** | **281** |
| | | | | | | | | | | |
| | **Total Capital - Local Government** | | | **20,216** | **20,281** | **122,837** | **143,118** | **143,118** | **143,118** | **143,118** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth leol a Chymunedau

National Assembly for Wales
Equality, Local Government and Communities Committee

Meilyr Rowlands
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

6 Hydref 2016

Annwyl Mr Rowlands,

Diolch am gytuno i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo i lywio'r gwaith craffu ôl-ddeddfu y mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wrthi'n ei gynnal ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Amgaeaf y cylch gorchwyl y mae'r Pwyllgor wedi cytuno arno.

Yn rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ailystyried addysg ar berthnasoedd iach, gan gynnwys a oes digon yn cael ei wneud mewn lleoliadau addysg i sicrhau y datblygir dull trwy'r ysgol gyfan o herio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

I roi rhywfaint o gefndir ichi, bu llawer o drafod, yn ystod hynt y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (a arweiniodd at y Ddeddf), ynglŷn â'r cwestiwn a ddylai'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer addysg orfodol ar berthnasoedd iach. Ym marn y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, nid oedd darpariaeth o'r fath yn angenrheidiol o ystyried y byddai cynigion a gyflwynwyd gan yr Athro Donaldson yn dilyn ei adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, pe byddent yn cael eu derbyn, yn arwain at gynnwys perthnasoedd iach mewn unrhyw gwricwlwm newydd a fyddai'n cael ei ddatblygu. Rhoddodd y Gweinidog ymrwymiad y byddai ef a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd yn gweithio gyda'r sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i archwilio sut y gallai gyfrannu at ddatblygu'r gwaith hwn. Rydym yn deall bod gwaith ar y gweill erbyn hyn i ddatblygu cwricwlwm newydd a bod y Rhwydwaith Ysgolion Arloesi wedi'i sefydlu.

Mae'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor wedi codi pryderon ynghylch dull Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, o ymdrin ag addysg ar berthnasoedd iach. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith nad yw'r canllawiau'n rhai gorfodol (yn

enwedig o gofio mai'r cynnig yn y **Papur Gwyn gwreiddiol ar y ddeddfwriaeth** oedd sicrhau bod addysg ar berthnasoedd iach yn cael ei chyflwyno ym mhob ysgol), yn ogystal ag anghysondeb rhwng sefydliadau, a dryswch ynghylch y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno adroddiad ar y modd y mae ysgolion yn gweithredu'r canllawiau.

Cyhoeddwyd y **Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru** (a ddatblygwyd ar y cyd â Chymorth i Fenywod Cymru) ym mis Hydref 2015. Roedd y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno adroddiad ar sut y maent yn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu sefydliadau addysgol, gan gynnwys drwy addysg rhyw.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith, byddem yn croesawu eich barn ynglŷn â'r canlynol:

- A ddylai addysg am berthnasoedd iach yn cael ei chynnwys yn y maes dysgu a phrofiad 'iechyd a lles' a gynigir gan yr Athro Donaldson?
- A ddylai'r 120 o Ysgolion Arloesi (sydd wedi cael y dasg o ddatblygu'r cwricwlwm newydd) fod yn rhoi'r Canllaw Arferion Da ar waith?
- Pryd y dylai awdurdodau lleol ddechrau cyflwyno adroddiadau ar y modd y mae ysgolion yn gweithredu'r Canllaw Arferion Da?
- Sut dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod addysg ar berthnasoedd iach yn gyson rhwng sefydliadau ac yn briodol i oed y disgyblion?
- Pryd y bydd adolygiad thematig Estyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei gynnal a sut yr ydych yn rhagweld y bydd hwn yn cyfrannu at ddatblygiad y cwricwlwm newydd?
- A ddylai pob sefydliad addysg fod wedi gweithredu'r Canllaw Arferion Da erbyn rhyw ddyddiad targed penodol?
- Sut dylid monitro pa mor effeithiol yw addysg ar berthnasoedd iach?
- Sut dylai'r materion hyn gael sylw mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch?

Bydd y Pwyllgor yn cwblhau ei waith casglu tystiolaeth ar 19 Hydref, pan fydd yn clywed gan Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac mor agos at y dyddiad hwn â phosibl.

Cofion cynnes

John Griffiths AC / AM
Cadeirydd / Chair

## Equality Local Government & Communities Committee

## Estyn response to specific issues relating to healthy relationship education

**Should teaching about healthy relationships be included in the 'health and wellbeing' area of learning and experience proposed by Professor Donaldson?**

Teaching about healthy relationships should be a clearly defined aspect of sex and relationships education which is delivered through personal and social education. It should be included in the health and wellbeing area of learning.

**Should the 120 Pioneer Schools (that have been charged with developing the new curriculum) be taking forward the Good Practice Guide?**

The good practice guide provides valuable information and useful advice on important aspects of healthy relationships education within schools and Further Education Institutions (FEIs). All schools and FEIs should act on the guidance to ensure that nine key elements of good practice are embedded in their provision. Pioneer schools must consider the good practice guidance when developing the new curriculum.

**When local authorities should begin reporting on how schools are implementing the Good Practice Guide?**

It is not clear what local authorities should report on. The good practice guide says that there will be further statutory guidance on monitoring and reporting requirements – has this been developed? Does this refer to the potential national indicators that are identified in the act and within the draft national strategy on Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence? Or will local authorities be required to provide a qualitative report on how well schools are delivering healthy relationships education? If so in what format and to whom? They do not provide such reports about other aspects of curriculum delivery.

However, the good practice guide describes a holistic approach. Local authorities would be in a position to report on for example, training delivered to school-based staff under the national training plan, following development of that plan by March 2017.

Without a clear idea of the reporting requirements, it is difficult to provide a considered view on when local authorities should begin reporting.

**How should the Welsh Government ensure that the healthy relationships education is consistent between institutions and age-appropriate?**

It is clear that there needs to be a planned approach to healthy relationships education. This should be a consideration for the health and wellbeing area of learning and experience (AoLE) group as part of the curriculum reform. Any progression reference points and achievement outcomes that are developed should consider the expected outcomes of healthy relationships education. This will ensure that important messages are sustained and durable.

**When will Estyn's thematic review on violence against women, domestic abuse and sexual violence take place and how do you anticipate this feeding into the development of the new curriculum?**

Estyn will gather evidence for the remit survey of healthy relationships education during November and December 2016 with a view to reporting in July 2017. The remit will provide:

- A state of the nation survey on the extent to which healthy relationships education is being delivered to pupils in schools across Wales
- Case studies of best practice to promote improvements in teaching and learning
- Evidence of whether current structures around safeguarding are used to support schools to deal with issues around violence against women, domestic abuse and sexual violence (VAWDASV)
- Evidence of how leadership by headteacher's and governors can impact on the delivery of positive healthy relationships education
- Evidence of how teachers use resources and external organisations to support the delivery of positive healthy relationships education
- Feedback and practical recommendations on how practice might be improved
- Feedback on the impact of existing guidance and legislation around VAWDASV

**Should there be a target date for when all education institutions should have implemented the good practice guidance?**

Education institutions would have had appropriate opportunity to review their approaches to personal and social education, including sex and relationships education, to take account of the good practice guidance by September 2017.

**How should the effectiveness of healthy relationships education be monitored?**

Healthy relationships education is an aspect of sex and relationships education. Estyn currently evaluates the quality of this provision as part of quality indicator 2.3 of the common inspection framework for all schools. This quality indicator evaluates the institution's provision for care support and guidance.

Estyn is in the process of reviewing its inspection arrangements. A new common inspection framework will be in place from September 2017. The framework is likely to consider sex and relationships education and its impact under the following areas:

- Inspection area 2 – pupils' wellbeing
- Inspection area 3 – teaching and learning experiences
- Inspection area 4 – care support and guidance

The effectiveness of healthy relationships education provision could be monitored through identifying whether pupils know what constitutes an abusive relationship, have positive attitudes towards gender equality and are confident to challenge and report abusive attitudes and behaviours.

Ultimately, the measure of success will be the extent to which domestic abuse, violence against women and sexual violence is prevented and the impact upon victims, including children who witness abuse, is reduced.

**How should these issues be addressed in further and higher education institutions?**

We typically find that in further education institutions that this aspect is through the following aspects of work:

- General awareness raising for all students through a tutorial system, sometimes including a series of e-learning modules
- Tailored support for individuals through learner/student support services, for example based on a learner support plan, and including links to external agencies for specific support
- Response to specific concern through safeguarding policies and procedures

As a result, it may be helpful to work with Colegau Cymru to consider any specific Wales-wide resources which could be developed to support this work.

Within our current inspection arrangements, Estyn would look at these aspects of provision within further education institutions under 2.3 of our common inspection framework which evaluates care, support and guidance.

Estyn has a limited involvement with higher education institutions. Within our inspections of initial teacher education we would consider how well the institution equips students to deliver personal and social education and be aware of safeguarding policies and procedures.

From 2019, new programmes for ITE will begin in Wales, and revised accreditation procedures will be introduced (Teaching Tomorrow's Teachers). Estyn will take part in the approval process for new provision, and full accreditation will depend on a successful outcome in inspection. In this new cycle of inspections, Estyn's new inspection guidance for ITE will align with the accreditation criteria.

The proposed accreditation criteria states, under part 4, programme structure and processes, section 4.4.4 Safeguarding and student teachers' welfare, that:

- The partnership should provide advice, support and guidance, including counselling, as well as medical and careers services.
- There should be clarity around safeguarding and whistle-blowing (page 23)

In addition, all accredited providers must:

- Familiarise students with the most recent national guidance on child protection, safeguarding, the principles of the UNCRC, Health and Well-being (page 37)

On entry all accredited ITE course providers must be satisfied that prospective student teachers:

- Have been vetted to ensure they don't have a criminal background which might prevent them working with children or vulnerable young people, or as an education practitioner; and ensure that student teachers have not previously been barred or excluded from teaching or working with learners (VBS); (safeguarding is a legal requirement) (page 38).

These accreditation criteria provide the possibility to ensure that a focus on healthy relationships is covered.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-09-16 Papur 3 / Paper 3

7 Hydref 2016

Annwyl Kirsty,

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wrthi'n cynnal gwaith craffu ôl-ddeddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Amgaeaf y cylch gorchwyl y mae'r Pwyllgor wedi cytuno arno. Yn rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ailystyried addysg ar berthnasoedd iach, gan gynnwys a oes digon yn cael ei wneud mewn lleoliadau addysg i sicrhau y datblygir dull trwy'r ysgol gyfan o herio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Efallai y cofiwch fod llawer o drafod wedi bod, yn ystod hynt y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (a arweiniodd at y Ddeddf), ynglŷn â'r cwestiwn a ddylai'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer addysg orfodol ar berthnasoedd iach. Ym marn y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, nid oedd darpariaeth o'r fath yn angenrheidiol o ystyried y byddai cynigion a gyflwynwyd gan yr Athro Donaldson yn dilyn ei adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, pe byddent yn cael eu derbyn, yn arwain at gynnwys perthnasoedd iach mewn unrhyw gwricwlwm newydd a fyddai'n cael ei ddatblygu. Rhoddodd y Gweinidog ymrwymiad y byddai ef a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd yn gweithio gyda'r sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i archwilio sut y gallai gyfrannu at ddatblygu'r gwaith hwn. Rydym yn deall bod gwaith ar y gweill erbyn hyn i ddatblygu cwricwlwm newydd a bod y Rhwydwaith Ysgolion Arloesi wedi'i sefydlu.

Mae'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor wedi codi pryderon ynghylch dull Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, o ymdrin ag addysg ar berthnasoedd iach. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith nad yw'r canllawiau'n rhai gorfodol (yn enwedig o gofio mai'r cynnig yn y **Papur Gwyn gwreiddiol ar y ddeddfwriaeth** oedd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA(L)KW/5255/16

John Griffiths AC
Cadeirydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

18 Hydref 2016

Annwyl John

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 7 Hydref ynglŷn â gwaith craffu ar ôl y broses ddeddfu a wneir gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf").

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y gwaith pwysig o Graffu ar Ôl y Broses Ddeddfu. Yn unol â'ch cais, rwy'n darparu tystiolaeth ar gyfer y cwestiynau canlynol yr ydych yn tynnu sylw atynt yn eich llythyr:

**A fydd addysg am berthnasoedd iach yn cael ei chynnwys yn y maes dysgu a phrofiad 'iechyd a lles' a gynigir gan yr Athro Donaldson? Os na, a fydd yn cael ei chynnwys yn unrhyw un o'r pum maes arall?**

Ni allaf gadarnhau ar hyn o bryd, gan fod y gwaith ar gam cynnar, ond, rwy'n rhagweld y bydd addysg am berthnasoedd iach yn cael ei chynnwys yn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles fel y cynigir gan yr Athro Donaldson, a nododd bedwar diben Addysg yn ei adroddiad Dyfodol Llwyddiannus. Rwy'n falch bod y blaenoriaethau yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cyd-fynd â'r pedwar amcan hynny - gan gynnwys un i gefnogi plant a phobl ifanc i fod yn unigolion iach, hyderus.

Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gynllunio cwricwlwm newydd i Gymru a fydd yn cael ei ddatblygu gyda'r pedwar diben a gynigir gan yr Athro Donaldson yn ganolog iddo. Y weledigaeth, yn seiliedig ar y dibenion hyn yw y dylai plant a phobl ifanc yng Nghymru feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ymdrin â'u bywyd bob dydd mor annibynnol ag y gallant, i feithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cydnerthedd ac empathi, ac i wybod sut i ddod o hyd i wybodaeth a chymorth i gadw'n ddiogel ac iach ac i greu perthnasoedd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch er mwyn byw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**Sut mae'r 120 o Ysgolion Arloesi (sydd wedi cael y dasg o ddatblygu'r cwricwlwm newydd) yn rhoi'r Canllaw Arfer Da ar waith?**

Bydd y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn chwarae rhan allweddol o ran hybu datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac addas. Bydd y Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru yn rhan o'r adnodd gwybodaeth ac arfer da fydd yn cefnogi gwaith yr Ysgolion Arloesi sy'n rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad.

Mae Ysgolion Arloesi wrthi ar hyn o bryd yn ystyried cynlluniau strategol ac egwyddorion craidd y cwricwlwm. Ni ragwelir y bydd pob un o'r Ysgolion Arloesi yn ymwneud â datblygu pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd pob Ysgol Arloesi yn gwybod pa Faes Dysgu a Phrofiad y bydd yn canolbwyntio arni yn y dyfodol agos ac yn cael y dasg o gasglu tystiolaeth i helpu i lywio gwaith dylunio lefel uchel y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn ystod y cam datblygu cyntaf. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach yn 2017 a'r nod yw sicrhau y bydd y cwricwlwm newydd ar gael i ysgolion o 2018 ymlaen ac ar gael yn llawn i gefnogi dysgu ac addysgu erbyn 2021. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig i sicrhau y caiff tystiolaeth addas ei darparu yn ystod y cyfnod dylunio a datblygu.

**Pryd y bydd awdurdodau lleol yn dechrau cyflwyno adroddiadau ar y modd y mae ysgolion yn gweithredu'r Canllaw Arfer Da?**

Bydd y Pwyllgor wrth gwrs yn ymwybodol bod Adran 9 o'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi diwygio Deddf Addysg 1996 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol adrodd ar sut y maent yn gweithredu eu swyddogaethau addysgol er mwyn hyrwyddo dibenion y Ddeddf, hynny yw, er mwyn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rhagwelir, o dan Ddeddf Addysg 1996, y bydd rheoliadau'n cael eu datblygu'n gynnar yn 2017 a fydd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol ar y camau gweithredu a gymerir ganddynt, gan gynnwys mewn ysgolion, i hybu dibenion y Ddeddf. Bydd y rheoliadau hynny'n ddarostyngedig i'r broses ymgynghori safonol.

Fel y nodir uchod, bydd y ddyletswydd gyfreithiol i gyhoeddi'r wybodaeth yn cael ei gosod ar Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth y bydd angen ei chasglu gan ysgolion, gwybodaeth y maent yn annhebygol o fod yn ei choladu ar hyn o bryd, a bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r mecanwaith ar gyfer casglu gwybodaeth o'r fath a chael mewnbwn gan gydweithwyr addysg. Rydym yn rhag-weld y bydd y system gasglu yn cynnwys swm bach o waith ar gyfer ysgolion ac yn ceisio cyfyngu ar y gwaith ychwanegol i ysgolion gymaint â phosibl.

**Sut bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod addysg ar berthnasoedd iach yn gyson rhwng sefydliadau ac yn briodol i oed y disgyblion?**

Bydd fy swyddogion, drwy'r grŵp cynghori ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), yn adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer darparu addysg perthnasoedd iach ac yn rhannu arferion da. Bydd swyddogion hefyd yn edrych ar gyfleoedd i hyrwyddo arferion da ac adnoddau defnyddiol drwy Hwb, y platfform digidol ar gyfer addysg, sydd ar gael i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

Nododd yr Athro Donaldson yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus na ddylai deddfwriaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd ragnodi ei gynnwys yn fanwl ond yn hytrach dylai ddarparu fframwaith i ganiatáu mwy o hyblygrwydd i ymarferwyr a sefydliadau. Fodd bynnag, bydd y pedwar diben a nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus* wrth wraidd y cwricwlwm newydd a byddant yn fan cychwyn ar gyfer pob penderfyniad ynghylch y cynnwys a'r profiadau a gaiff eu datblygu fel rhan o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Bydd gweithgor y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn ystyried tystiolaeth sy'n ymwneud â chysondeb a chynnwys sy'n briodol i oedran y disgyblion mewn perthynas ag addysg perthnasoedd iach.

**Pryd y bydd adolygiad thematig Estyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei gynnal?**

Bydd Estyn yn cynnal adolygiad thematig o'r ddarpariaeth perthnasoedd iach presennol yn ystod y flwyddyn academaidd 2016/2017.

**A ddylai pob sefydliad addysg fod wedi gweithredu'r Canllaw Arfer Da erbyn rhyw ddyddiad targed penodol?**

Nid oedd dyddiad targed penodol ar gyfer gweithredu. Cyhoeddwyd y Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan ar 20 Hydref 2015 gyda'r disgwyliad y byddai ysgolion yn dechrau defnyddio'r canllaw ar unwaith (neu eu bod wrthi'n ei ddefnyddio eisoes).

Mae'r canllaw, a ddatblygwyd ar y cyd â Cymorth i Ferched wedi'i seilio ar naw elfen allweddol y Dull Addysg Gyfan, gyda phob adran yn edrych ar y math o weithgareddau y gellid eu cyflawni o dan bob elfen. Mae'r canllaw yn awgrymu amrywiaeth o syniadau ymarferol a cheir astudiaethau achos fel enghreifftiau drwyddo draw.

Cynlluniwyd y Canllaw Arfer Da i fod yn becyn cymorth ymarferol i ysgolion a sefydliadau addysg uwch, a bydd y Canllawiau Statudol yn cael eu hanelu at Awdurdodau Lleol yn eu hymwneud ag ysgolion. Bydd angen iddo felly ddatblygu'r agwedd o'r Canllaw Arfer Da lle mae rôl i'r Awdurdod Lleol (yn bennaf yn ymwneud â monitro a gwerthuso).

**Sut y bwriedir monitro pa mor effeithiol yw addysg perthnasoedd iach?**

Mae Adran 29 o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf) yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud er mwyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am sut y maent yn arfer eu swyddogaethau addysgol i gefnogi

dibenion y Ddeddf. Fel yr amlinellir uchod mae hyn yn cael ei gymhwyso yng nghyd-destun y Canllaw Arfer Da.
O ran y cwricwlwm newydd, mae’n gamau cynnar o hyd o ran y broses ddatblygu ac mae’n rhy gynnar i ragweld y trefniadau manwl y tu hwnt i’r egwyddorion a nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus.* Er eglurder, mae'n argymell na ddylai deddfwriaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd bennu manylion penodol am ei gynnwys ond yn hytrach dylai ddarparu fframwaith i roi mwy o hyblygrwydd i ymarferwyr a sefydliadau.

**Sut bydd y materion hyn yn cael sylw mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch?**


Fel y crybwyllwyd uchod cyhoeddwyd y Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan ar 20 Hydref 2015 gyda’r nod o fod yn becyn cymorth ymarferol i sefydliadau addysg bellach.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sy’n gyfrifol am y swyddogaeth statudol ar gyfer cynhyrchu canllawiau penodol ar gyfer addysg uwch. Drwy ganllawiau a chynlluniau cydraddoldeb presennol CCAUC, mae gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru eisoes nifer o gamau ar waith i godi ymwybyddiaeth o’r materion hyn, i ddarparu gwybodaeth a chyngor, ac i ddiogelu myfyrwyr a staff. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CCAUC i adolygu sut y gellir rhoi rhagor o gymorth i sefydliadau addysg uwch i fynd i’r afael â’r materion hyn.

Mae fy swyddogion wrthi’n adolygu’r ffordd orau o gefnogi sefydliadau addysg uwch i fynd i’r afael â’r materion hyn.

Hyderaf fod y llythyr hwn yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education